# Polisi Cais Gwrthrych am Wybodaeth

## Cyflwyniad

**Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn rhoi'r hawl i chi gael mynediad at y data personol sydd gennym amdanoch, a gelwir y math hwn o gais yn Gais Gwrthrych am Wybodaeth.**

1. **Mae'r GDPR hefyd yn rhoi'r hawliau canlynol i chi**
2. **Yr hawl i gael eich hysbysu**
3. **Yr hawl i gael cywiriad**
4. **Yr hawl i ddileu**
5. **Yr hawl i gyfyngu ar brosesu**
6. **Yr hawl i gludadwyedd data**
7. **Yr hawl i wrthwynebu**
8. **Hawliau o ran gwneud penderfyniadau yn awtomatig a phroffilio**

## Y Tîm Mynediad at Wybodaeth – yr hyn rydym ni'n ei wneud

**Rydym yn prosesu pob cais gwrthrych am wybodaeth.**

**Rydym yn cofnodi ac yn cydnabod ceisiadau gwrthrych am wybodaeth, ac yn cysylltu â'r staff ac adrannau perthnasol er mwyn casglu'r wybodaeth.**

**Rydym yn gwirio'r ffeiliau am wybodaeth trydydd parti a gwybodaeth arall sydd wedi'i heithrio.**

**Rydym yn paratoi ac yn cyhoeddi'r ymateb terfynol.**

**Bydd y Swyddog Diogelu Data, nad yw'n ymwneud â phrosesu ceisiadau gwrthrych am wybodaeth o ddydd i ddydd, yn ymchwilio i unrhyw gwynion.**

**Gallwch gysylltu â'r tîm drwy ffonio neu anfon e-bost, yn ysgrifenedig neu'n bersonol neu drwy unrhyw fodd rhesymol arall.**

**Ffôn: (03000) 653000**
**E-bost: ATI@naturalresourceswales.gov.uk**
**Drwy'r post neu'n bersonol: Tîm Mynediad at Wybodaeth, Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor LL572DW**

**Trefnwch apwyntiad cyn ymweld os gwelwch yn dda, er mwyn i ni allu sicrhau bod rhywun ar gael i gwrdd â chi.**

## Sut ydych chi'n gwneud cais?

**Rhaid i chi wneud eich cais yn ysgrifenedig. Mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:**

- **Disgrifio'r wybodaeth rydych chi ei hangen**
- **Darparu tystiolaeth o bwy ydych chi**

## Dweud wrthym yr hyn rydych chi ei eisiau

**Mae angen i chi nodi'r wybodaeth rydych chi ei heisiau fel y gallwn ni ddod o hyd iddi. Gallwch ddefnyddio ein ffurflen cais gwrthrych am wybodaeth i wneud eich cais (gweler y ddolen). Os oes yn well gennych, gallwch anfon llythyr neu e-bost atom i ofyn am fynediad at eich gwybodaeth.**

## Beth os na allwch chi wneud cais yn ysgrifenedig?

**Os na allwch chi wneud cais yn ysgrifenedig, cysylltwch â ni, a byddwn ni'n gwneud trefniadau i'ch helpu chi i wneud eich cais.**

## Tystiolaeth o bwy ydych chi

**Rydym yn gofyn am dystiolaeth o bwy ydych chi fel y gallwn ni wneud yn siŵr mai chi yw'r sawl rydych chi'n honni bod ac er mwyn sicrhau bod gennych chi'r hawl i'r wybodaeth.**

## Gofynnir i chi ddarparu llungopi o'r canlynol:

- **Rhywbeth swyddogol gyda'ch llun arno - er enghraifft, eich pasbort, trwydded yrru, bathodyn adnabod gwaith, ac ati; a**
- **Rhywbeth gyda'ch cyfeiriad arno - er enghraifft, cyfriflen banc neu fil diweddar (gyda'r manylion ariannol wedi'u tywyllu os oes yn well gennych)**

## Beth os nad oes gennych dystiolaeth o bwy ydych chi?

**Rydym yn gofyn am dystiolaeth o bwy ydych chi fel ein bod yn gallu gwneud yn siŵr fod gennych chi'r hawl i'r wybodaeth. Os nad oes gennych dystiolaeth o bwy ydych, nid yw hynny'n golygu na allwch wneud cais. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwn ni'n gofyn i chi ddod i mewn i'r swyddfa er mwyn i ni allu cadarnhau pwy ydych chi.**

## Ffioedd

**Nid oes ffi am roi'r wybodaeth i chi**

## Sut allwch chi gysylltu â ni?

**Drwy'r post:**
**Y Tîm Mynediad at Wybodaeth**
**Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Maes y Ffynnon**
**Penrhosgarnedd**
**Bangor**
**LL57 2DW**
**Drwy e-bost: accesstoinformationteam@naturalresourceswales.gov.uk**
**Ffôn: 03000653000**

***Noder na allwch gyflwyno cais gwrthrych am wybodaeth dros y ffôn. Byddem, fodd bynnag, yn fwy na bodlon darparu cyngor ar gyflwyno cais.**

## Beth fyddwch chi'n ei gael gan Cyfoeth Naturiol Cymru?

**Byddwn yn darparu llungopi o'r wybodaeth sydd gennym. Os nad yw'n eglur o'r dogfennau a roddir i chi, efallai y byddwn ni hefyd yn darparu'r canlynol os yw'n berthnasol:**

- **Eglurhad o pam fod gennym ni'r data**
- **Manylion pwy allai fod wedi cael y data hwn gennym**
- **Esboniad o unrhyw dermau technegol neu dalfyriadau**
- **Manylion ynghylch o le y daeth y data**

## A fyddwch chi bob amser yn cael yr hyn y gwnaethoch ofyn amdano?

**Gallai fod rhesymau pam na allwn ni ddarparu'r wybodaeth y gwnaethoch ofyn amdano - er enghraifft, os yw'n cynnwys gwybodaeth bersonol am rywun arall, os ydym yn credu y byddai rhoi'r wybodaeth i chi yn eich niweidio neu os oes achosion llys ar droed. Os na allwn ni ddarparu'r wybodaeth rydych chi ei heisiau, byddwn yn dweud pam.**

**Os na fyddwch chi'n cytuno â'n penderfyniad, gallwch ofyn i ni ailystyried ein hymateb. Gweler yr adran 'Beth os nad ydych chi'n hapus gyda'r ymateb i fy nghais?'**

## A allwch chi weld gwybodaeth am bobl eraill?

**Mae gennych chi'r hawl i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol eich hunan yn unig. Nid oes gennych chi hawl awtomatig i gael mynediad at ddata personol am bobl eraill, e.e. eich teulu, ffrindiau, ac ati. Mae'n bosibl, fodd bynnag, y gallech wneud cais ar ran unigolyn arall os yw'r canlynol yn wir:**

- **Chi yw rhiant plentyn o dan 12 mlwydd oed**
- **Mae gennych chi ganiatâd ysgrifenedig i wneud cais ar ran rhywun arall**
- **Mae gennych chi atwrneiaeth neu orchymyn gan y Llys Gwarchod sy'n rhoi'r hawl i chi gyflwyno'r cais**

**Hyd yn oed os ydych yn bodloni'r gofynion hyn, mae'n bosibl y bydd angen i ni ofyn i chi am ragor o wybodaeth cyn i ni wneud penderfyniad ynghylch datgelu'r wybodaeth. Mae hyn oherwydd bod gennym ddyletswydd i gadw data personol yn gyfrinachol.**

## Ceisiadau am wybodaeth a wneir ar ran oedolyn

### *Pan fydd yr unigolyn yn rhoi caniatâd*

**Os oes gennych chi ganiatâd i wneud cais ar ran rhywun arall, byddwn yn gofyn i chi gyflwyno llythyr i ni wedi'i lofnodi gan yr unigolyn hwnnw, sy'n dweud wrthym ei fod yn hapus i ni roi ei wybodaeth i chi.**

**Os ydych chi'n gyfreithiwr sy'n gwneud cais ar ran eich cleient, byddwn yn gofyn i chi gyflwyno ffurflen awdurdodi wedi'i llofnodi.**

### *Pan na fydd gan yr unigolyn y gallu i wneud y cais ei hunan*

**Os ydych chi'n gweithredu ar ran rhywun nad yw â'r gallu i wneud cais, byddwn yn gofyn i chi brofi bod gennych chi'r awdurdod i wneud hynny (e.e. atwrneiaeth neu orchymyn gan y Llys Gwarchod).**

**Os nad oes gennych ganiatâd ffurfiol, byddwn yn ystyried a yw ymateb i'r cais er pennaf fudd yr unigolyn. Os oes gennym le i gredu nad ydych yn gweithredu er pennaf fudd yr unigolyn, byddwn yn gwrthod eich cais ac yn eich hysbysu o'r rheswm dros ein penderfyniad. Os byddwn yn gwrthod eich cais ac nid ydych chi'n hapus gyda'n penderfyniad ni, gallwch ofyn i ni ailystyried ein hymateb. Cyfeiriwch at yr adran o'r enw 'Beth os nad wyf yn hapus gyda'r ymateb i fy nghais?'**

## Pa mor hir fydd hi'n cymryd i gael ateb?

**Mae gennym un mis i ymateb i gais gwrthrych am wybodaeth. Mae'r amserlen yn cychwyn o'r dyddiad rydym yn derbyn y cais a'r dystiolaeth o bwy ydych.**

**Mae'r GDPR yn rhoi amserlen benodol, ac rydym yn ceisio ein gorau i ymateb i bob cais ar y dyddiad cau neu cyn hynny, ond efallai na fydd hyn yn bosibl ar rai adegau. Os mai hyn yw'r achos, byddwn yn cysylltu â chi i roi gwybod i chi. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn gallu trafod y posibilrwydd o roi'r wybodaeth i chi mewn camau.**

## Sut bydd yr wybodaeth yn cael ei rhoi i chi?

**Trwy bost cofnodedig neu drwy e-bost wedi'i amgryptio neu ffeil a rennir gyda chyfrinair. Fel arall, gallwch ei chasglu'n bersonol o swyddfa leol.**

## Beth fydd yn digwydd pan fyddwch wedi gwneud cais?

**Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth i chi o fewn pum diwrnod gwaith i dderbyn eich cais.**

**Yn y llythyr cydnabyddiaeth, byddwn yn gadael i chi wybod pryd gallwch ddisgwyl cael ateb (bydd hyn un mis o'r dyddiad y byddwn yn derbyn eich cais).**

**Os bydd arnom angen i chi egluro eich cais, darparwch dystiolaeth o bwy ydych a byddwn yn cysylltu â chi cyn gynted â phosibl. Yn yr achos hwn, byddwn yn oedi eich cais tan i ni glywed yn ôl gennych.**

**Os na fyddwch yn ein hateb o fewn un mis, byddwn yn cau eich cais heb ymateb.**

**Os byddwch yn rhoi eglurhad i ni, bydd yr amserlen o un mis yn ailddechrau o'r diwrnod y byddwch chi'n ei roi.**

**Pan fyddwn yn gwybod yn union pa wybodaeth rydych chi ei heisiau a phan fydd tystiolaeth gennym o bwy ydych, byddwn yn gweithio i gasglu'r wybodaeth hon.**

**Byddwch yn derbyn ymateb i'ch cais cyn gynted â phosibl ac, ym mhob achos, o fewn un mis o'r dyddiad y gwnaethom dderbyn y cais.**

## Beth os nad ydych chi'n hapus gyda'r ymateb i'ch cais?

**Os na fyddwn yn rhoi'r wybodaeth rydych chi wedi gofyn amdani i chi, neu os ydym wedi dileu ychydig o'r wybodaeth, gallwch drafod y mater gyda'r Swyddog Diogelu Data.**

**Gallwch hefyd gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn monitro sut rydym yn ymdrin â cheisiadau gwrthrych am wybodaeth a gallai ofyn i ni gyfiawnhau ein penderfyniadau.**

## Gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

**Cyfeiriad: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office**
**Wycliffe House**
**Water Lane**
**Wilmslow**
**Cheshire**
**SK9 5AF**
**Ffôn:(01625) 545700**
**Gwefan: www.ico.gov.uk**

## Cofnodi ac adrodd

**Byddwn yn cofnodi gwybodaeth am geisiadau gwrthrych am wybodaeth er mwyn sicrhau ein bod yn ymdrin â cheisiadau yn unol â'r GDPR a'r weithdrefn hon. Gallem hefyd ddefnyddio'r wybodaeth hon i nodi tueddiadau. Byddwn yn nodi unrhyw wybodaeth ystadegol yn ddienw.**

## Cadw cofnodion a rhannu data

**Byddwn yn cadw ffeil electronig a fydd yn cynnwys eich cais, e-byst rhwng adrannau ynghylch eich cais a'r llythyr ymateb.**

**Byddwn yn storio'r wybodaeth hon yn ddiogel ar ein System Rheoli Dogfennau**

**Byddwn yn sganio unrhyw lythyrau y byddwch chi'n eu hanfon ac yn eu cadw yn y ffeil electronig. Byddwn yn cael gwared ar y llythyr gwreiddiol yn y gwastraff cyfrinachol.**

**Byddwn yn sganio unrhyw ffeiliau papur y byddwn ni'n eu defnyddio i ymateb i chi yn y ffeil electronig ac yna'n cael gwared ar y copi papur, oni bai fod llawer o wybodaeth a bydd yn cymryd amser hir i'w sganio. Os felly, byddwn yn storio'r copi papur mewn lleoliad dan glo. Os yw'r ffeil yn un gwreiddiol, byddwn yn ei dychwelyd i'r adran pan fyddwn wedi gorffen ei defnyddio.**

**Byddwn yn cadw'r ffeiliau electronig (a ffeiliau papur os yw'n briodol) am ddeng mlynedd ac yna'n eu gwaredu mewn modd diogel. Byddwn yn cadw gwybodaeth ystadegol am geisiadau am gyn hired ag y bydd arnom ei hangen.**

**Byddwn yn rhannu gwybodaeth amdanoch gyda swyddogion eraill Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn gallu ymdrin â'ch cais.**

**Os byddwch yn cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, byddwn yn cyflwyno gwybodaeth am eich cais iddi ac unrhyw wybodaeth ychwanegol a allai ei helpu i benderfynu a ydym wedi ymdrin â'ch cais yn briodol, ac yn ei phrosesu yn unol â gofynion y GDPR.**